OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 666

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005

### RHAN 10

Ffioedd am Wiriadau Milfeddygol

**Talu ffioedd**

**52.**—(1) Codir ffi resymol a gaiff ei chyfrifo yn unol â rheoliadau 53 a 54 ac Atodlen 3 am wiriadau milfeddygol a gyflawnwyd ar lwyth wrth safle arolygu ar y ffin.

(2) Codir y ffi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bydd yn daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, awdurdod lleol neu'r Asiantaeth, pa un bynnag sy'n gyfrifol, yn unol â rheoliadau 4 ac 5, am weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn wrth y safle arolygu ar y ffin lle y cyflawnir y gwiriadau milfeddygol.